

# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion CYP(3)-03-09

**Dyddiad: Dydd Mawrth 10 Chwefror 2009**

**Amser: 9.15am – 11.00am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Helen Mary Jones (Cadeirydd)

Christine Chapman, Cwm Cynon

Ann Jones, Dyffryn Clwyd

Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc

Rita Phillips, Dirprwy Glerc

Kathryn Potter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Helen Roberts, Cyngorwr Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Anne Crowley, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Achub y Plant Cymru

Rhian Croak, Swyddog Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Achub y Plant

Debbie Budlender, Community Agency for Social Enquiry (cynhadledd dros y ffôn)

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle. Mae Ann Jones yn dirprwyo ar ei rhan yn rheolaidd.

1.3 Cafwyd hefyd ymddiheuriadau gan Angela Burns. Nid oedd unrhyw un yn dirprwyo ar ei rhan.

### Item 2: Ymchwiliad i gyllidebu ar gyfer plant

#### Papur: CYP(3)-03-09 (p1)

2.1 Atebodd Anne Crowley a Rhian Croke gwestiynau a ofynnwyd iddynt gan y Pwyllgor.

#### Camau i'w cymryd:

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor i ddosbarthu'r adroddiad ar wariant sy'n helpu pobl dlawd, a gomisïynwyd gan Achub y Plant, pan gaiff ei gyhoeddi ar ddechrau mis Mawrth.

2.2 Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Anne Crowley a Rhian Croke am ddod gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth.

### Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.25, i ohirio'r cyfarfod am bum munud.

#### Papur: CYP(3)-03-09 (p2)

2.3 Croesawodd y Cadeirydd Debbie Budlender a diolchodd iddi am gymryd rhan yn y cyfarfod drwy gynhadledd ffôn.

2.4 Atebodd Debbie Budlender gwestiynau a ofynnwyd iddi gan y Pwyllgor.

#### Camau i'w cymryd:

Debbie Budlender i ddarparu astudiaeth achos sy'n dangos y cydberthynas rhwng lefelau gwariant a gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.

2.5 Diolchodd y Cadeirydd i Debbie Budlender am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

### Cytunodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), y byddai gweddill y cyfarfod yn cael ei gynnal yn breifat.

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

**Chwefror 2009**

